

## Peter Lea Primary School

### Disgrifiad o'r Cynnig

Dangosodd ffigurau yswiriant rhwng 2006 a 2011 fod mwy na hanner miliwn o wrthdrawiadau cerbydau ar ffyrdd o amgylch ysgolion yn y DU, a arweiniodd at fwy na 1,000 o blant yn cael eu hanafu bob mis.

Rydym yn gweithio'n galed iawn i sicrhau diogelwch plant ac oedolion yng Nghaerdydd ac rydym ni nawr yn ymgynghori i greu Gorchymyn Rheoli Traffig Dros Dro ar Strydoedd Ysgolion (GRhTDD) i leihau nifer y cerbydau sy'n gyrru heibio i ysgolion yn ystod oriau brig.

Mae Strydoedd Ysgol yn strydoedd (neu barthau) cyfyngedig mewn ardaloedd o amgylch ysgolion prysur sy'n troi'n ardaloedd i gerddwyr yn ystod oriau brig yr ysgol. Golyga hyn na chaniateir i gerbydau fynd i mewn i strydoedd na gyrru drwyddyn nhw tra bod y cyfyngiadau ar waith oni bai bod gan y cerbydau hynny drwydded Stryd Ysgol.

Byddai'r y GRhTDD ar waith am hyd at 18 mis a byddai'n gweithredu ddim ond yn ystod adeg y tymor yn rhan o gynllun treialu. Bydd y GRhTDD yn gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn na gyrru ar Carter Place rhwng **8:30am a 9:15am** a rhwng **2:45pm a 3:45pm**, o **ddydd Llun i ddydd Gwener**. Diben hyn yw sicrhau diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr y tu allan i Peter Lea School ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Bydd eithriadau ar waith ar gyfer cerbydau gwasanaeth brys a deiliaid trwyddedau Strydoedd Ysgol. Bydd hawl gennych i wneud cais ar gyfer trwydded Stryd Ysgol os yw un o'r canlynol yn berthnasol:

- ✓ Rydych yn breswlydd ac mae eich cerbyd wedi'i gofrestru i gyfeiriad sydd ar Stryd Ysgol
- ✓ Rydych yn rhiant neu'n warcheidwad plentyn sy'n mynychu ysgol ar Stryd Ysgol ac mae gennych fathodyn glas dilys a bod angen i chi ollwng y plentyn mor agos at yr ysgol â phosibl i'w helpu i gyrraedd yr ysgol
- ✓ Mae eich plentyn yn mynd i ysgol ar Stryd Ysgol ac mae ganddo fathodyn glas dilys
- ✓ Rydych yn ddeiliad Bathodyn Glas ac rydych yn gweithio mewn ysgol sydd ar Stryd Ysgol
- ✓ Mae amgylchiadau eithriadol yn berthnasol (caiff y rhain eu hystyried fesul achos)

Nid ellir trosglwyddo trwyddedau Parth Ysgol i barthau gwahanol. Bydd yr holl drwyddedau Parth Ysgol yn drwyddedau rhithwyr ac felly nid oes angen i chi arddangos unrhyw beth yn eich cerbyd. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn bwriedir dosbarthu llythyr ychwanegol fydd yn cynnwys gwybodaeth ar sut i sicrhau trwydded os ydych yn gymwys i gael un.

Byddwn yn defnyddio camerâu gorfodi i fonitro Strydoedd Ysgolion a byddwn yn cyflwyno dirwyon (Hysbysiadau Tâl Cosb) i gerbydau a welir yn mynd i mewn i Stryd Ysgol neu'n gyrru ar hyd stryd felly pan fo gwaharddiad ar waith. Y gosb am y drosedd hon fydd £70, a fydd yn gostwng i £35 os telir o fewn 21 diwrnod.

Bydd y GRhT dros dro yn dilyn y broses ymgynghori statudol cyn y gellir ei roi ar waith. Ar ôl i'r GRhT dros dro fod ar waith am gyfnod o 18 mis, gwneir penderfyniad terfynol ar weithredu'r gorchymyn yn barhaol, newid y GRhT neu ei ddileu.


Byddem yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau sydd gennych ar y cynigion dan sylw.

## Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig i weithredu cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

A Proud Capital  
Prifddinas Falch



Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn [www.caerdydd.gov.uk/transportprojects](http://www.caerdydd.gov.uk/transportprojects) ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch [Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk](mailto:Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk) neu ffoniwch 029 2087 3354 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn 28/7/2019.



## The Council is consulting on the proposal to implement a traffic management scheme based on the plan shown.

A Proud Capital  
Prifddinas Falch



Further details about this consultation are available at [www.cardiff.gov.uk/TransportProjects](http://www.cardiff.gov.uk/TransportProjects) using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail [TransportProjects@cardiff.gov.uk](mailto:TransportProjects@cardiff.gov.uk) or telephone 029 2087 33354 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by 28/7/2019